**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Cynghorydd Huw Thomas
Arweinydd, Cyngor Caerdydd
Cyngor Caerdydd

Copïau at: Y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies
Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

9 Rhagfyr 2022

Cwestiynau pellach am ddyfodol Neuadd Dewi Sant

Annwyl Gynghorydd Thomas

Yng ngoleuni'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Caerdydd ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022, rydym wedi penderfynu ysgrifennu atoch eto gyda chwestiynau pellach yn ychwanegol at ein llythyr gwreiddiol atoch chi (dyddiedig 5 Rhagfyr 2022).

Rydym yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Credwn fod darparu tryloywder mewn mater mor sensitif yn fuddiol i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol Neuadd Dewi Sant. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon hefyd wedi codi nifer o gwestiynau eraill a nodir isod.

Nodwn y bydd Cabinet y Cyngor yn trafod adroddiad ddydd Iau 15 Rhagfyr 2022, sy'n argymell cymeradwyo mewn egwyddor gynnig gan yr Academy Music Group Limited ("AMG") i redeg yr adeilad o dan brydles hirdymor. Mae rhywfaint o wybodaeth wedi cael ei chyhoeddi mewn perthynas â'r tri opsiwn sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor, ond rydym yn galw am fwy o eglurder ynghylch pam mae'r opsiwn hwn yn cael ei symud ymlaen gan y Cyngor, yn hytrach na mynd i'r farchnad.

## Cyflymder y broses

Mae erthygl a gyhoeddwyd gan WalesOnline ar 2 Rhagfyr 2022 yn nodi bod trafodaethau ag AMG wedi dechrau yn 2021. Mae'r erthygl hefyd yn dyfynnu llefarydd ar ran y Cyngor yn dweud eu bod wedi bod yn siarad ag AMG ers 2020. Byddem yn gwerthfawrogi cael mwy o eglurder ynghylch pam mae'r broses hon yn mynd rhagddi mor gyflym o gofio bod trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt am gyhyd.

## Cywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd i'r Prif Weinidog

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr blaenorol, nodwyd yn y Senedd yr wythnos diwethaf fod Cyngor Caerdydd yn "*gwneud y gwaith gyda nid jest un cwmni ond mwy nag un cwmni sydd wedi dangos diddordeb i gydweithio â'r cyngor dros ddyfodol Neuadd Dewi Sant*". Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ymddengys eich bod yn dilyn opsiwn gydag un cwmni yn unig, a hynny heb egluro pa werthusiad a wnaed (os o gwbl) o atebion eraill. Nid yw'n glir i ni pam mae'r Prif Weinidog dan yr argraff bod y Cyngor yn gweithio gyda mwy nag un sefydliad pan nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu mewn dogfennau a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Byddem yn eich annog i egluro hyn ar frys.

## Opsiynau ariannu eraill

Mae'n aneglur i ni hefyd pa opsiynau eraill yr ydych wedi edrych arnynt o ran dyfodol Neuadd Dewi Sant. Nid oes eglurder ynghylch unrhyw lwybrau eraill yn y sector cyhoeddus neu yn y trydydd sector y gallai Cyngor Caerdydd fod wedi ceisio eu dilyn. O ystyried statws y neuadd fel neuadd gyngerdd genedlaethol, byddwm yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni a yw'r Cyngor wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru neu Gyngor y Celfyddydau i weld a allai gymorth pellach gael ei ddarparu. Byddem hefyd yn croesawu amlinelliad o'r holl opsiynau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yr ydych wedi'u hystyried.

## Tryloywder gwybodaeth

Yn olaf, mae diffyg tryloywder Cyngor Caerdydd yn y mater hwn yn destun pryder difrifol i ni.

Mae agenda Pwyllgorau Craffu'r Economi a Diwylliant ar gyfer dydd Llun 12 Rhagfyr 2022 yn cynnwys nifer o ddogfennau ynglŷn â Neuadd Dewi Sant. Mae modd codi rhywfaint o wybodaeth o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn, ond mae'r mwyafrif ohonynt yn bapurau cyfyngedig. Er ein bod yn gwerthfawrogi ei bod yn arferol cyfyngu ar ddogfennau yn y modd hwn, gan mai dim ond un cynnig sydd, byddai'n ddefnyddiol deall pam mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfyngu.

Gwerthfawrogwn fod cyngor cyfreithiol yn destun braint, felly ni fyddem yn disgwyl iddo fod ar gael i'r cyhoedd. O gofio mai dim ond cynnig a fydd yn cael ei ystyried, fodd bynnag, rydym o'r farn nad oes angen i sensitifrwydd masnachol fod yn gymwys. Felly, credwn fod yn rhaid i Gyngor Caerdydd fod yn agored gyda manylion y fargen arfaethedig ar gyfer Neuadd Dewi Sant. Byddai bod yn agored fel hyn, fe gredwn, yn helpu pobl i ddeall yn well beth sy'n digwydd, yn y gobaith y byddai hynny'n rhoi sicrwydd. Mae hefyd yn bosibl y byddai gweithredu mewn modd mwy agored yn ateb rhai o'n cwestiynau.

Ac anghofio'r ffaith bod y strwythur y cyfeirir ato yn y wybodaeth gyhoeddus yn destun trafodiad tir yn hytrach na chontract a fyddai'n ddarostyngedig i broses caffael cyhoeddus, nid yw'n glir pam na ellir gwneud mwy o'r wybodaeth yn gyhoeddus. Mewn cyferbyniad, pe bai'r Cyngor yn cynnal proses caffael cyhoeddus, byddai lefel uwch o wybodaeth ar gael, gan gynnwys manylebau a thelerau contractau.

O ystyried pa mor gyflym y mae'r broses hon yn mynd rhagddi, byddem yn ddiolchgar am ymateb i'n pryderon erbyn dydd Mercher 14 Rhagfyr 2022.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament